

Memorandwm Esboniadol i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022. Rwy'n fodlon bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
30 Mehefin 2022

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) ('y Rheoliadau') yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion.

1.2 Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r cyrff canlynol, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') i roi Hysbysiadau Cydymffurfio i'r cyrff hynny mewn perthynas â'r safonau a bennwyd:

- Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Rhifau yn y Rheoliadau

Mae'r Rheoliadau'n defnyddio'r wyddor Gymraeg, h.y. (a), (b), (c), (ch) ac ati. Mae hyn yn effeithio ar:

(1) Safonau 33, 57, a 63

(2) paragraffau 21, 22, a 27 o Atodlen 1, paragraff 2 o Atodlen 2, a paragraff 7 o Atodlen 3.

Mae'r arddull hon yn wahanol i'r arddull rhifo arferol a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Fel arfer, defnyddir y wyddor Saesneg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos hwn, oherwydd natur a phwnc y Rheoliadau, defnyddiwyd y wyddor Gymraeg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddryswch wrth groesgyfeirio. Defnyddiwyd yr un arddull yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (SI 2015/996) a Rheoliadau dilynol yn pennu Safonau'r Gymraeg.

2.2 Enw'r Rheoliadau

Teitl y Rheoliadau yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022. Os cânt sêl bendith y Senedd, dyma fydd y seithfed¹ set o Reoliadau Safonau'r Gymraeg i gael eu gwneud. Bwriedir gwneud yr holl Reoliadau a wneir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn un gyfres barhaus, yn yr un modd â gorchmynion cychwyn. Y farn yw y bydd hyn yn golygu bod y Rheoliadau'n haws i'w trin ac i gyfeirio atynt, yn enwedig pan fydd Hysbysiadau Cydymffurfio'n cyfeirio at Reoliadau.

2.3 Cyrff yn Rheoliad 3 ac yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau

Mae Atodlen 6 i'r Rheoliadau'n rhestru'r cyrff y mae'r Comisiynydd wedi cael ei awdurdodi i roi hysbysiad cydymffurfio iddynt mewn perthynas â'r safonau a bennwyd. Mae Adran 43 o'r Mesur yn darparu nad yw rheoliadau'n gallu gwneud safonau'n benodol gymwys i berson oni bai bod y safon yn gymwysadwy iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff a restrir naill ai wedi'u nodi yng ngholofn 1 y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur neu maent o fewn categori o bersonau a nodir yn y golofn honno, ac mae colofn 2 yn disgrifio pa safonau a allai fod yn gymwysadwy iddynt (adran 36 y Mesur).

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Caiff y Rheoliadau eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae adran 26 y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau drwy reoliadau. Mae adran 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau gwahanol ar gyfer ymddygiadau gwahanol. Mae hefyd yn eu galluogi i bennu un safon neu nifer o safonau ar gyfer ymddygiad penodol.
- 3.2 Cyn y gall y Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i berson yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon, rhaid i'r safon honno fod yn benodol gymwys i'r person hwnnw (adran 25). Mae adran 39 yn darparu bod safon yn benodol gymwys i berson pan fydd Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw yn ymwneud â'r safon honno. Mae adran 105(5) yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn cynnwys pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaethau trosiannol, darfodol, canlyniadol ac arbed, darpariaethau cysylltiedig ac unrhyw ddarpariaethau eraill y mae Gweinidogion Cymru'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol.
- 3.3 Yn unol ag Adran 150(2) o'r Mesur, rhaid i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron Senedd Cymru, a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddo (h.y. y weithdrefn gadarnhaol).

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

¹Cafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016 eu gwrthod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.1 Gwnaeth y Mesur gadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith. Cam allweddol i roi effaith i'r Mesur yw pennu safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i bersonau gydymffurfio â'r Safonau hyn.

4.2 Mae adran 25 y Mesur yn darparu ei bod yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon a bennir gan Weinidogion Cymru, os bodlonir amodau penodol. Mae'r amodau hynny'n cynnwys y canlynol:

- i. Bod safon yn benodol gymwys i'r person (h.y. mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi Hysbysiad Cydymffurfio i'r person hwnnw mewn perthynas â'r safon honno);
- ii. Bod y Comisiynydd wedi rhoi Hysbysiad Cydymffurfio i'r person;
- iii. Bod yr Hysbysiad Cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon;
- iv. Bod yr Hysbysiad Cydymffurfio mewn grym.

4.3 Mae safonau sy'n perthyn i'r categorïau canlynol wedi'u pennu yn y Rheoliadau:

- **Safonau cyflenwi gwasanaethau** - bydd y rhain yn cael eu gosod mewn perthynas â hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.
- **Safonau llunio polisi** - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- **Safonau gweithredu** - bydd y rhain yn delio â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gyrff.
- **Safonau cadw cofnodion** - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir gan gorff.

4.4 Mae'r safonau wedi'u paratoi gyda'r nod o:

- gynyddu defnydd pobl o wasanaethau Cymraeg
- gwella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan gyrff
- ei gwneud yn glir i gyrff yr hyn y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg
- sicrhau cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a roddir ar gyrff sydd yn yr un sectorau.

4.5 Mae rhai safonau'n dibynnu ar ei gilydd. Felly, mae'r Rheoliadau'n cynnwys tablau (yn Rhan 2 o Atodlenni 1 a 3) i ategu'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu. Mae'r tablau yn nodi pa safonau eraill y bydd angen eu gosod hefyd pan fydd safon benodol wedi'i chynnwys mewn Hysbysiad Cydymffurfio.

4.6 Ni fydd y Rheoliadau, pan fyddant yn dod i rym, yn cael effaith uniongyrchol ar gyrff ac ni fyddant, ar eu pennau eu hunain, yn creu hawliau i'r rheini sy'n defnyddio'r Gymraeg. Bydd hynny ond yn digwydd pan fydd yr holl amodau yn adran 25 y Mesur wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn gam hanfodol yn fframwaith y Mesur, ac yn galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i gyrff gydymffurfio â'r safonau.

4.7 Mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar bob corff drwy hysbysiad cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r ystod o safonau y gellir eu gosod ar gorff. Efallai y bydd sefydliad yn gorfod cydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau yn unig ac nid mewn sefyllfaoedd eraill, yn dibynnu ar yr hyn a nodir yn ei hysbysiad cydymffurfio. Bydd yr hysbysiad cydymffurfio hefyd yn nodi erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â safon.

Apelio

4.8 Bydd cyrff yn gallu herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol, ar sail p'un a yw'n rhesymol ac yn gymesur disgwyl iddynt wneud hynny. Yn y lle cyntaf, bydd corff yn gallu herio'r Comisiynydd ei hun. Os yw am herio penderfyniad y Comisiynydd, gellir apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac yna i'r Uchel Lys.

Sanctsiynau

4.9 Y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau hyn. Mewn achosion lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod corff wedi methu â chydymffurfio â safon, gall gymryd camau gorfodi. O dan y Mesur, gall camau gorfodi amrywio o lunio argymhellion neu roi cyngor i gorff, i orfodi cosb sifil nad yw'n fwy na £5,000.

5. Risgiau peidio â gwneud Rheoliadau

5.1 Os na chaiff y Rheoliadau arfaethedig eu gwneud, bydd y risgiau canlynol yn cael eu gwireddu:

- Bydd Cynlluniau Iaith Gymraeg a gyflwynwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn parhau ar gyfer y cyrff a restrir uchod sydd â Chynllun Iaith. Os bydd y Cynlluniau Iaith yn parhau, ni fydd trefn orfodi ar gael os bydd corff yn methu â chydymffurfio â'i Gynllun.
- Ar hyn o bryd, mae Cynlluniau Iaith yn amrywio o un corff i'r llall, ac mae'r ymrwymadau mewn rhai Cynlluniau yn amhenodol. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae'r cyhoedd yn ansicr pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd hwn yn parhau os nad yw'r Rheoliadau'n cael eu gwneud. Er ei bod yn bosibl y bydd rhywfaint o amrywiaeth rhwng cyrff, mae'r safonau'n benodol eu natur ac felly byddant yn lleihau ansicrwydd y cyhoedd.
- Ni fydd rhan allweddol o'r Mesur yn cael ei gweithredu.

- 5.2 Ceir rhagor o wybodaeth am risgiau a manteision gweithredu'r safonau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod, ac mae'r risgiau o beidio â chyflwyno safonau wedi'u hamlinellu yn adran 'Opswn 1: gwneud dim' y manteision.

6. Ymgynghori

- 6.1 Cynhaliodd Gweinidogion Cymru [ymgynghoriad cyhoeddus](#) ar Reoliadau drafft Safonau'r Gymraeg rhwng 16 Mawrth 2020 a 2 Hydref 2020. Oherwydd pandemig Covid, cafodd yr ymgynghoriad ei ymestyn fel bod pawb a oedd â diddordeb yn y Rheoliadau drafft yn cael cyfle i rannu eu barn. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 6.2 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys galwad ar gyrff i gyflwyno data er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru baratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnwys yn Rhan 2 isod.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Opsiynau, costau a manteision

- 7.1 Gofynnwyd i'r 9 corff a enwir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau hyn gymryd rhan mewn ymarfer casglu data yn ymwneud ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ddosbarthwyd gyda'r [ymgyngoriad ar y Rheoliadau drafft](#) a gynhaliwyd rhwng 16 Mawrth a 2 Hydref 2020. Yn dilyn ceisiadau gan rai cyrff, cafodd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymarfer yn ymwneud â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ymestyn i 2 Tachwedd 2020 er mwyn rhoi mwy o amser i'r cyrff ymateb. Cyflwynodd 6 o'r 9 sefydliad sy'n cael eu henwi yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau hyn ymateb i'r ymarfer casglu data yn ymwneud â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 7.2 Mae'r dadansoddiad canlynol o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Safonau wedi'u seilio ar yr ymatebion a ddarparwyd gan y 6 corff hwnnw.

8. Crynodeb o'r ymatebion

- 8.1 Darparodd 6 o'r 9 corff a fydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 wybodaeth am gost ei Gynllun Iaith Gymraeg presennol (ar wahân i'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol, gan nad oes ganddo Gynllun Iaith). Darparodd y cyrff amcangyfrif hefyd o'r gost o gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Y cyrff hynny oedd:
- Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
 - Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
 - Y Cyngor Optegol Cyffredinol
 - Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
 - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
 - Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- 8.2 Gofynnwyd i'r cyrff ystyried manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol ac ieithyddol cydymffurfio â safonau. Ni nododd yr un o'r cyrff unrhyw fanteision economaidd nac amgylcheddol. Nododd 4 o'r cyrff fantais gymdeithasol; roedd y manteision cymdeithasol a nodwyd i gyd yn berthnasol i'r Gymraeg ac yn cydnabod bod galluogi pobl i ddelio â nhw yn Gymraeg yn arwain at fanteision cymdeithasol. Nododd 4 o'r cyrff hefyd fanteision ieithyddol, a oedd unwaith eto'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr eu gwasanaethau.

9. Cywirdeb a Defnyddioldeb y Data Ariannol

- 9.1 Er bod y cyrff uchod wedi gwneud ymdrech i asesu goblygiadau'r safonau, mae gennym bryderon ynghylch dibynadwyedd y data a gafwyd ganddynt ac a yw'n addas ar gyfer llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn a chywir.
- 9.2 Pwysleisiodd y cyrff ei bod yn anodd iddynt ddarparu data cywir heb wybod pa rai o'r safonau drafft y byddai disgwyl iddynt gydymffurfio â nhw, ac o

dan ba amgylchiadau. Darparodd rhai cyrff amcangyfrif o'r costau ar gyfer cydymffurfio â safon yn ei ystyr ehangaf. Mewn rhai achosion, nodwyd costau sy'n ymddangos yn annisgwyl o uchel. Er bod y rhan fwyaf o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn yn darparu gwasanaethau tebyg i'r un defnyddwyr, roedd sbectrwm eang o amcan-gostau. Nid beirniadaeth ar ymdrechion y cyrff i amcangyfrif costau yw hyn, na'u rhesymeg wrth wneud hynny, ond yn hytrach cydnabyddiaeth o'r anawsterau o ran amcangyfrif costau'n gywir o dan system lle na fyddant yn gwybod pa ddyletswyddau y disgwylir iddynt gydymffurfio â nhw, ac o dan ba amgylchiadau, hyd nes y cânt hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg.

9.3 Er enghraifft, amcangyfrifodd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal gost untro o £1.165m i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl safonau cyflenwi gwasanaethau. Roedd yr amcangyfrif hwn yn sylweddol uwch nag a nodwyd gan y cyrff eraill. O'r gost honno, nodwyd y byddai cydymffurfio â safon ddrafft 19 yn unig (gofyniad i greu ffurflen gais ar gyfer cofrestru yn Gymraeg) yn arwain at amcangyfrif untro o £1.150m. Er ei bod yn gost sylweddol, nid yw'r amcangyfrif hwnnw'n unig wedi gwneud inni deimlo bod y safon yn afresymol, gan fod cyrff eraill wedi nodi y gallent gydymffurfio â'r ddyletswydd am gost lawer is. Fodd bynnag, mae'n enghraifft o sefyllfa lle byddai'r Comisiynydd yn ceisio rhagor o wybodaeth ac yn ystyried a yw'r safon yn rhesymol ar gyfer corff penodol, neu a ddylid cynnwys amod yn yr hysbysiad cydymffurfio i sicrhau bod y safon yn cael ei gosod mewn modd rhesymol.

9.4 Wrth osod dyletswyddau ar gyrff o dan Reoliadau safonau blaenorol, nid yw'r Comisiynydd wedi gosod pob un o safonau Rheoliadau ar unrhyw gorff unigol. Mae'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd heb unrhyw amodau yn fach. Os caiff y Rheoliadau sêl bendith y Senedd, caiff gwybodaeth bellach ei chasglu gan gyrff pan fydd y Comisiynydd yn ymgynghori ar Hysbysiadau Cydymffurfio drafft. Ar ôl derbyn Hysbysiad Cydymffurfio drafft, bydd gan gorff ddealltwriaeth lawer gwell o union natur y dyletswyddau y mae'r Comisiynydd yn bwriadu eu gosod arno. Bydd felly mewn sefyllfa well i ddarparu costau cywir. Yna bydd modd cynnal asesiad llawnach o'r effaith ariannol, a byddai'r Comisiynydd yn edrych arno fel rhan o'i ystyriaeth o ba ddyletswyddau sy'n rhesymol ac yn gymesur i'w gosod ar y cyrff unigol.

10. Yr Opsiynau: Costau a manteision

10.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn:

- Opsiwn 1: Gwneud dim - byddai'r cyrff yn parhau i weithredu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (nid oes gan y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol Gynllun Iaith).
- Opsiwn 2: Cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyrff.

10.2 Mae'r dadansoddiad canlynol yn ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn yn eu tro.

Costau

Opsiwn 1: Gwneud dim

10.3 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol o dan yr opsiwn hwn. Ni fyddai angen i'r cyrff hyn gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ond byddai disgwyl iddynt barhau i gyflawni eu Cynlluniau laith presennol. Os nad oes gan gorff Gynllun laith, yna bydd yn parhau i weithredu heb unrhyw ymrwymiadau na dyletswyddau o ran ei ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

10.4 Mae Tabl 1 yn crynhoi'r wybodaeth a gafwyd gan y sefydliadau ynghylch cost cydymffurfio â'r Cynlluniau laith presennol.

Tabl 1 - Costau gweithredu'r Cynlluniau laith presennol (y flwyddyn)

| | Costau cydymffurfio | Costau Staff |
|---|----------------------------|---------------------|
| Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol | Dim Cynllun laith | - |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol | £2.5k | £8k |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol | £1.1k | - |
| Y Cyngor Proffesiynau lechyd a Gofal | £4.5k | £10k |
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | £15k | £5k |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol | £5.5k | £1k |

Opsiwn 2: Cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyrff sydd wedi'u rhestru yn y Rheoliadau

10.5 Er nad oes modd nodi eto pa safonau fydd yn berthnasol i bob corff, mae'n debygol y bydd y cyrff yn ysgwyddo rhai costau untro a chostau rheolaidd ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r safonau.

10.6 Mae'r rhan fwyaf o'r dyletswyddau a gaiff eu gosod gan safonau yn debyg i'r ymrwymiadau a wneir yn y Cynlluniau laith Gymraeg a fabwysiadwyd bellach gan y rhan fwyaf o'r cyrff hyn. Yn yr ystyr hwnnw, byddai rhai o'r costau ychwanegol a amcangyfrifwyd gan y cyrff ond yn dod yn realiti pe bai cynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr gwasanaethau o'i gymharu â'r galw presennol. Er enghraifft, nododd y rhan fwyaf o gyrff oblygiadau o ran cost mewn perthynas â chydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â gohebiaeth. Roedd y costau'n amrywio o ddim cost ar y naill law i £20,000 o leiaf ar y llaw arall, gan fod un corff wedi nodi y gallai fod angen cyflogi unigolyn i sicrhau cydymffurfiaeth. Nododd y rhan fwyaf o gyrff gynnydd mewn costau cyfieithu, gyda'r amcangyfrifon yn amrywio rhwng £1,000 a £10,000. Fodd bynnag, gan eu bod yn wasanaethau y mae'r cyrff eisoes wedi ymrwymo i'w darparu yn Gymraeg drwy eu Cynlluniau laith Gymraeg, dim ond pe bai'r cyrff yn derbyn lefel uwch o

ohebiaeth yn Gymraeg ar ôl gorfod cydymffurfio â safonau (a gorfod ateb yn Gymraeg) y byddai'r costau ychwanegol hynny'n cael eu gwireddu.

Costau Staff

10.7 Gofynnwyd i gyrrff amcangyfrif y costau staffio ychwanegol a fyddai'n deillio o orfod cydymffurfio â'r safonau.

10.8 Tabl 2 – Costau staffio ychwanegol

| | Costau Staffio Ychwanegol (y flwyddyn) |
|---|---|
| Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol | O leiaf £20k |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol | £111k-£172k |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol | £12k-£15k |
| Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal | £28k |
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | £160k |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | O leiaf £63k |

10.9 Roedd rhai o'r costau staffio a amcangyfrifwyd ac a amlinellwyd uchod yn dibynnu ar lefel y galw mewn gwasanaethau Cymraeg, a pha safonau a osodir ar y cyrff. Er enghraifft, mae amcangyfrif yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol o £63,000 yn seiliedig ar yr angen i gyflogi aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg (Safon 4). Ar hyn o bryd maent yn dibynnu ar gwmni cyfieithu allanol i ddarparu'r gwasanaeth, ac maent yn nodi ei bod yn anghyffredin iawn ar hyn o bryd (llai nag unwaith y flwyddyn) derbyn cais am wasanaeth yn Gymraeg. Maent hefyd yn nodi eu bod yn edrych ymlaen at drafod y pwynt hwn gyda'r Comisiynydd pan ddaw'r amser i osod dyletswyddau. Fel y nodwyd ym mharagraff 6 uchod, byddai materion fel y rhain yn cael eu trafod pan fo'n amser gosod safonau ar gyrrff.

10.10 Yn yr un modd, mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn nodi bod eu hamcangyfrif o'r angen am staff yn dibynnu ar union ofynion y safonau. Er enghraifft, nodwyd y byddent yn croesawu eglurhad pellach o'r hyn sy'n ofynnol o dan Safon 5. Maent yn nodi amcangyfrif posibl o £110,000 o gostau staff ychwanegol bob blwyddyn. Nid ydym yn credu y byddai Safon 5 ynddi'i hun yn arwain at gost ariannol o'r fath gan na fyddai o reidrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff recriwtio staff ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth.

10.11 Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth hefyd gost staffio sylweddol o £160,000 y flwyddyn, o'i gymharu â'r costau staff cyffredol o £5,000 y flwyddyn i gydymffurfio â'u Cynllun Iaith Gymraeg. Maent yn nodi bod y costau cyflogaeth uwch ar gyfer cydymffurfio â safonau yn deillio o ddehongliad llythrennol o Safon 4, ac y gallai eu dehongliad arwain at orfod cyflogi o leiaf un ac o bosibl ddau gyfieithydd mewnol llawn amser i sicrhau na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Fodd bynnag, maent hefyd

yn nodi nad ydynt yn credu ei bod yn gymesur cyflogi cyfieithwyr ar gcontract llawn amser ac y byddai'n well ganddynt barhau â'u harfer presennol o ddefnyddio contract gyda chwmni cyfieithu. O edrych ar brofiad ac ymateb cyrff eraill sydd eisoes yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, ni chredwn ei bod yn debygol y byddai'n rhaid i gorff y mae'r galw am wasanaethau Cymraeg ganddo yn gymharol isel gyflogi staff penodol sy'n gallu gweithio yn Gymraeg, neu gyfieithwyr i sicrhau cydymffurfiaeth â Safon 4.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

10.12 Y costau ychwanegol a amcangyfrifwyd ar gyfer cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau oedd yr uchaf o'r pedwar categori o safonau (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion). Mae hynny er gwaetha'r ffaith bod y safonau cyflenwi gwasanaethau yn debyg iawn i'r ymrwymadau yn y Cynlluniau Iaith.

10.13 Tabl 3 – Costau cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

| | |
|---|--|
| Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol | £150k |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol | Costau rheolaidd: £204k-£313k Cost untro: £271k-£281k |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol | Costau rheolaidd: £76k Cost untro: £165k |
| Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal | Costau rheolaidd: £33k Cost untro: £1.165m |
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | Costau rheolaidd: £200k-500k Cost untro: £200k-500k |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Costau rheolaidd: £68k |

10.14 Nododd y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol mai amcangyfrif bras oedd eu swm o £150,000. Fodd bynnag, nodwyd mai £20,000 o'r swm hwnnw oedd cost (isafswm) cyflogi aelod newydd o staff i ddelio â darparu gwasanaethau yn Gymraeg. O weddill yr amcangyfrif o £150,000 nodwyd cost o £100,000 i newid y porth cofrestru, a £30,000 ar gyfer costau'r wefan.

10.15 Nododd y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol hefyd, pe bai'n ofynnol iddynt drefnu gwasanaethau cyfieithu mewn gwrandawriad addasrwydd i ymarfer,

y gallai gostio £500-£700 y dydd. Nid ydym o'r farn bod y rhain yn gostau ychwanegol yn sgil y safonau, gan ei bod yn bosibl y byddai'n rhaid iddynt ddarparu'r gwasanaeth hwn o dan ddarpariaethau presennol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

- 10.16 Roedd y rhan fwyaf o amcangyfrif cost untro'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn deillio o Safon ddrafft 19; gofyniad i greu ffurflen gais ar gyfer cofrestru yn Gymraeg. Amcangyfrifwyd bod hyn yn costio rhwng £215,000 a £256,000 ym mlwyddyn un. Maent yn nodi eu bod yn bwriadu creu system GMC Ar-lein newydd i ganiatáu i bobl wneud cais i fod ar eu cofrestr. Maent yn amcangyfrif y byddai'n costio £92,000 arall i gael fersiwn Gymraeg o'r system hon pe bai safonau'n weithredol.
- 10.17 Mae'r Cyngor Meddygol hefyd yn nodi y gallai fod costau sylweddol pe bai'n ofynnol iddynt gyfieithu deunydd yn ymwneud ag achosion cyfreithiol. Maent yn nodi bod pob achos yn unigryw, ond yn seiliedig ar eu rhesymeg y gall y gwaith papur sy'n cyd-fynd ag achosion amrywio o 50 i 3,000 o dudalennau, maent yn amcangyfrif y gallai gostio £2,000-£90,000 i gyfieithu gwaith papur ar gyfer Tribiwnlys.
- 10.18 Maent hefyd yn amcangyfrif mai cost darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i un tribiwnlys ymarferwyr meddygol yw £11,000. Fodd bynnag, byddai'n rhaid iddynt eisoes ddarparu'r gwasanaeth hwn o dan ddarpariaethau presennol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Maent yn nodi nad ydynt hyd yma wedi cael unrhyw geisiadau i gyfieithu papurau tribiwnlys nac i'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn tribiwnlys addasrwydd i ymarfer na thribiwnlys gorchymyn interim. Felly, byddai angen i'r galw gynyddu o'r lefelau presennol cyn y gwelid unrhyw gostau ychwanegol.
- 10.19 Darparodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol hefyd ystod cost eang o rhwng £0 a £57,000 i ddarparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd gydag unigolion. Maent yn nodi mai amcangyfrif yw'r ystod hon ac, oherwydd lefel y galw, maent yn rhagweld y byddai'r gost wirioneddol ar ben isaf yr ystod.
- 10.20 Yn yr un modd, nodwyd bod y rhan fwyaf o amcangyfrif y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer costau rheolaidd (cyfanswm o £76,000) yn ymwneud â darparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer gwrandawiaid addasrwydd i ymarfer. Maent yn amcangyfrif y byddai un gwrandawriad yn costio £50,000, ac mae eu hamcangyfrif ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar dderbyn un cais y flwyddyn i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawriad addasrwydd i ymarfer. Fel gyda'r cyrff eraill, nodwn y byddai'n rhaid iddynt eisoes ddarparu'r gwasanaeth hwn o dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 10.21 Costau cyfieithu fyddai gweddill y costau rheolaidd, yn deillio o safonau sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd a gohebiaeth, a chostau i ddiweddarau'r system ffôn.

- 10.22 Nodwyd mai cost cyfieithu 200 o ddogfennau presennol i'r Gymraeg oedd y rhan fwyaf o'r costau untro (£111,000 o £165,000), a £50,000 arall i ddarparu gwasanaeth cofrestru, adnewyddu ac adfer yn Gymraeg.
- 10.23 Darparodd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal amcangyfrif cost sylweddol uwch na'r cyrff eraill o ran costau cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau. Roedd £1.15m o'r costau untro yn gysylltiedig â'r ddyletswydd i ddarparu ffurflenni cofrestru yn Gymraeg. Roedd costau cydymffurfio â'r safonau eraill yn debyg i'r hyn a ddarparwyd gan gyrff eraill, megis cost o £9,000 i sefydlu system ffôn newydd, a £9,000 i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd.
- 10.24 Fel y nodwyd ym mharagraff 6 uchod, byddai materion yn ymwneud â darparu ffurflen gofrestru yn Gymraeg, a sut y gellir cymhwyso'r ddyletswydd yn rhesymol, yn cael eu trafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y broses o ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio.
- 10.25 Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn darparu ystod amcangyfrif bras. Ymhlith yr amcangyfrifon cost sylweddol oedd £100,000 i ddarparu fersiwn Gymraeg o NMC Ar-lein i ganiatáu i bobl gofrestru yn Gymraeg, £30,000 i newid y system ffôn i gynnwys opsiwn Cymraeg, a £50,000 i ddarparu dogfennau a ffurflenni yn Gymraeg.
- 10.26 Amcangyfrifir bod y gost o gynnwys cyfieithu mewn gwrandawriadau rhwng £10,000 a £40,000 y flwyddyn, ac fe'i cynhwysir yn yr amcangyfrif hwn (er y byddai'n rhaid iddynt eisoes wneud darpariaeth i bobl gael siarad Cymraeg mewn gwrandawriad o dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993). Maent yn nodi y byddai gofyniad i gyhoeddi penderfyniadau addasrwydd i ymarfer yn Gymraeg yn costio £55,000 y flwyddyn mewn ffioedd cyfieithu.
- 10.27 Darparodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol amcangyfrif o £68,000 ar gyfer costau safonau cyflenwi gwasanaethau. Priodolwyd y rhan fwyaf o'r gost hon (£59,000) i gyflogi dau gyfieithydd i sicrhau dim oedi wrth ymateb i ohebiaeth Gymraeg, gyda'r gweddill yn cael eu nodi fel costau cyfieithu i ddarparu gwahanol gategoriâu o wasanaethau yn Gymraeg. Nodwyd y gost staffio hefyd yn nhabl 2 uchod (gweler paragraff 14 am ddadansoddiad pellach).

Safonau Llundio Polisi

- 10.28 Tabl 4 – Costau cydymffurfio â Safonau Llundio Polisi

| | |
|--------------------------------------|-----------------------|
| Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol | Dros £20k y flwyddyn |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol | Cost untro - £16k |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol | Ni nodwyd unrhyw gost |
| Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal | Ni nodwyd unrhyw gost |

| | |
|---|-----------------------|
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | Ni nodwyd unrhyw gost |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Cost untro - £1k |

10.29 Amcangyfrifodd tri o'r cyrff na fyddai'r safonau llunio polisi yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

10.30 Amcangyfrifodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol gost untro o £16,000 i ddarparu hyfforddiant i'r holl staff polisi ar ofynion y safonau, ac mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn credu y byddai'r safonau'n golygu rhai costau trosiannol bychain wrth i brosesau newydd gael eu datblygu a'u gweithredu.

10.31 Nododd y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol gost o fwy nag £20,000 y flwyddyn. Nhw oedd yr unig gorff i nodi y byddai safonau llunio polisi yn arwain at gostau blynyddol rheolaidd. Fodd bynnag, nodir mai'r rheswm dros y gost hon oedd yr angen i gyfieithu nifer o bolisiau, prosesau a chyfathrebu allanol, a fyddai'n costio o leiaf £700 yr un. Ni ddylai cydymffurfio â safonau llunio polisi, ynddo'i hun, olygu bod yn rhaid i gorff gyfieithu polisiau i'r Gymraeg. Mae'r dyletswyddau a ddaw yn sgil y safonau hynny'n ymwneud ag ystyried effaith polisi ar y Gymraeg, yn hytrach nag iaith y ddogfen bolisi ei hun.

10.32 Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal y byddai cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yn effeithio ar amser staff, ac mae'r costau sy'n deillio o hynny wedi'u cynnwys yn y costau staffio yn nhabl 2.

Safonau gweithredu

10.33 Tabl 5 – Costau cydymffurfio â Safonau Gweithredu

| | |
|---|-----------------------|
| Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol | Tua £10k |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol | Ni nodwyd unrhyw gost |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol | £4k |
| Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal | Ni nodwyd unrhyw gost |
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | £3k |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Ni nodwyd unrhyw gost |

10.34 Amcangyfrifodd tri o'r cyrff na fyddai'r safonau gweithredu yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

10.35 Rhoddodd y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol amcangyfrif bras o £10,000, gan nodi rhai costau'n ymwneud â recriwtio a fyddai'n digwydd dro ar ôl tro (cyfieithu hysbysebion swyddi i'r Gymraeg), a chostau hyfforddi untro hefyd. Roedd costau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth hefyd yn

ymwneud â datblygu adnoddau hyfforddi ar gyfer staff a chyfieithu gwybodaeth am swyddi gwag i'r Gymraeg.

10.36 Roedd y costau a nodwyd gan y Cyngor Optegol Cyffredinol yn ymwneud â datblygu adnoddau hyfforddi ar gyfer staff.

Safonau cadw cofnodion a safonau sy'n ymdrin â materion atodol

10.37 Tabl 5 – Costau cydymffurfio â Safonau Cadw Cofnodion a safonau sy'n ymdrin â materion atodol

| | |
|---|------------------------------------|
| Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol | Costau bach heb eu cyfrif yn fanwl |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol | Ni nodwyd unrhyw gost |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol | £12k-£15k |
| Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal | Ni nodwyd unrhyw gost |
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | £0.2k |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Costau bach |

10.38 Nododd dau o'r cyrff na fyddai i'r safonau hyn unrhyw oblygiadau o ran cost ychwanegol cyn belled â bod y broses gwyno sy'n ofynnol o dan y safonau yn gallu cael ei hintegreiddio i brosesau presennol y cyrff.

10.39 Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol fod unrhyw gostau yn dibynnu ar p'un a allant dalu am yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gydymffurfio â safonau cadw cofnodion o fewn eu strwythur presennol, neu a fyddai angen recriwtio adnoddau ychwanegol. Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal hefyd y bydd y safonau hyn yn golygu bod angen adnoddau staff ychwanegol, ond bod y gost honno wedi'i chynnwys yn eu costau staffio yn nhabl 2.

Manteision

Opsiwn 1: Gwneud dim

10.40 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac nid oes manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r sefyllfa bresennol fel y mae, h.y. bod rhai o'r cyrff yn cydymffurfio â Chynlluniau Iaith Gymraeg. Byddai'r Comisiynydd yn parhau â'i waith o fonitro cydymffurfiaeth â'r cynlluniau.

Opsiwn 2: Cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyrff sydd wedi'u rhestru yn y Rheoliadau

10.41 Diben y safonau yw gwella lefel y gwasanaeth y gall aelodau'r cyhoedd ddisgwyl ei derbyn. Yn y cam hwn (a nes bod Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi'r hysbysiadau cydymffurfio), mae ond yn bosibl amlinellu'r manteision cyffredinol a ddisgwylir.

- 10.42 Bydd y Safonau'n nodi'n glir beth y mae angen i'r cyrff ei wneud o ran y Gymraeg, fel bod defnyddwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg. Bydd yr eglurder hwn, ar gyfer y cyhoedd a'r cyrff, yn helpu i sicrhau bod y safonau'n gallu cael eu gorfodi'n effeithiol a dylai sicrhau bod y cyrff yn glir ynghylch y lefel o wasanaeth y mae angen iddynt ei darparu drwy'r Gymraeg. Ni all y Comisiynydd ond pennu safonau sy'n rhesymol ac yn gymesur ar gyfer pob corff unigol. Bydd y safonau llunio polisi yn sicrhau bod dyletswyddau ar y cyrff i ystyried effaith eu polisiâu ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Dyma fydd y tro cyntaf i'r rhan fwyaf o'r cyrff hyn ystyried y Gymraeg yng nghyd-destun polisi, a dylai arwain at brif-ffrydio'r arfer o ystyried y Gymraeg ym mhob un o'u meysydd gwaith.
- 10.43 Bydd gosod y cyrff hyn o dan y system safonau yn eu symud o system y Cynllun Iaith Gymraeg, a ddaeth i rym o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, i'r system safonau a gyflwynwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd hefyd yn sicrhau bod y cyrff hyn o dan yr un system reoleiddio â chyrrff eraill yn y sector iechyd, a gynhwyswyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018.
- 10.44 Bydd gwell trefn orfodi yn cynnig dull mwy effeithiol o ymdrin ag achosion honedig o beidio â chydymffurfio, ond yn sicrhau hefyd y gellir datrys cwynion yn gynnar ac yn anffurfiol os yw hynny'n briodol.

11. Casgliad

- 11.1 Mae'r ansicrwydd presennol ynghylch pa Safonau y bydd angen i bob corff gydymffurfio â nhw, ac o dan ba amgylchiadau, yn golygu nad yw'n bosibl llunio asesiad cadarn ar hyn o bryd o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau.
- 11.2 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau, a oedd yn destun ymgynghoriad. Yn yr un modd â'r Rheoliadau blaenorol yn ymwneud â'r Safonau, ystyriwyd cylch arall o gasglu data ar newidiadau a wnaed ers yr ymgynghoriad. Penderfynwyd bod y canlyniad yn debygol o fod yn debyg ac na fyddai modd casglu'r data angenrheidiol i lunio asesiad cadarn o'r goblygiadau o ran cost nes bod gwybodaeth bellach ar gael ar ba safonau fydd yn berthnasol i bob corff ac o dan ba amgylchiadau. Mae'r un peth yn wir mewn perthynas â'r cyrff hyn: Er mwyn i gorff fedru roi amcangyfrif cywir o gostau gweithredu'r safonau, byddai'n rhaid iddo'n gyntaf dderbyn hysbysiad cydymffurfio gan y Comisiynydd yn ei hysbysu pa safonau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw. Yng ngoleuni hyn, ni ofynnwyd i gyrff ddarparu manylion ariannol mewn perthynas â'r newidiadau a wnaed ers yr ymgynghoriad ar safonau drafft.
- 11.3 Rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg ymgynghori â'r cyrff cyn cyhoeddi'r hysbysuadau cydymffurfio terfynol, a chaiff ffactorau megis pa mor rhesymol a chymesur yw safonau unigol eu hystyried ar y cam hwn. Fel rhan o'r broses hon, gallai'r cyrff gyflwyno asesiad o'r costau a'r manteision

cymharol sy'n gysylltiedig â'r Safonau. Gallai'r Comisiynydd ystyried hyn wrth benderfynu a yw'r safonau'n rhesymol ac yn gymesur.

12. Dyletswyddau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

12.1 Mae'r Rheoliadau yn cefnogi amcanion ac egwyddorion llesiant Llywodraeth Cymru, yn enwedig *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – sy'n gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg*. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Bydd y Rheoliadau yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wrth i'r cyhoedd ymdrin â'r cyrff a enwir yn y Rheoliadau.

Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn

12.2 Ystyriwyd Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru, a daethpwyd i'r casgliad nad yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc.

Yr Iaith Gymraeg

12.3 Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a daeth i'r casgliad y byddai'r Rheoliadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac na fyddant yn arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cydraddoldeb

12.4 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau. Nid ydynt yn codi unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol. Nid oes unrhyw effaith negyddol ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig. Bydd y rheoliadau yn caniatáu i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg gan y 9 corff a gaiff eu gwneud yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau. Bydd y gwasanaethau hynny ar gael i bob defnyddiwr gwasanaeth, p'un a ydynt mewn grwpiau gwarchodedig ai peidio.

13. Asesiad o'r gystadleuaeth

13.1 Nid yw gwneud y Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ar allu busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol i gystadlu.

14. Adolygu ar ôl gweithredu

14.1 Mae'r Mesur yn darparu nifer o gyfleoedd i'r Comisiynydd ddwyn sylw Gweinidogion Cymru at addasrwydd y safonau a bennwyd yn y Rheoliadau. Er enghraifft:

- 14.2 Gall y Comisiynydd gyflwyno argymhellion neu roi cyngor i Weinidogion Cymru (Adran 4 o'r Mesur) a allai argymhell yn uniongyrchol ddiwygio'r Rheoliadau. Hefyd gallai Gweinidogion Cymru benderfynu ar sail cyngor a roddir gan y Comisiynydd y byddai'n briodol adolygu'r Safonau. Rhaid iddynt roi sylw dyledus i unrhyw argymhellion neu gyngor ysgrifenedig y mae'r Comisiynydd yn eu rhoi wrth arfer y swyddogaeth y mae'r argymhelliad neu'r cyngor yn ymwneud â hi.
- 14.3 Mae Adran 18 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad blynyddol. Rhaid i'r adroddiad hwnnw gynnwys adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg (ymhlith materion eraill) a gallai hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn briodol eu cynnwys.
- 14.4 Yn ogystal, mae gan y Comisiynydd y pŵer i gynnal Ymchwiliad Safonau (adrannau 61 a 62 o'r Mesur) a all ystyried pa safonau a ddylai, neu a ddylai barhau i fod yn benodol gymwys i berson, p'un a yw'r safonau eisoes wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru ai peidio. Ar ôl cynnal Ymchwiliad Safonau, rhaid i'r Comisiynydd lunio Adroddiad Safonau a darparu copi ohono i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i adroddiad o'r fath yn unol ag adran 66 o'r Mesur.
- 14.5 Yn amodol ar eu Hysbysiadau Cydymffurfio, bydd cyrff yn cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol sy'n amlinellu sut y maent wedi cydymffurfio â'r safonau a osodwyd arnynt. Gallai'r Adroddiadau Blynyddol hyn hefyd godi materion yn ymwneud ag addasrwydd y safonau a bennwyd.